OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 428 (Cy. 70)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A48 a Thraffordd yr M4 (Cyffordd a Chyfnewidfa Earlswood, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Wedi ei wneud* | *17 Chwefror 2012* |
| *Yn dod i rym* | *27 Chwefror 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (A48) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") a Thraffordd Llundain – De Cymru (M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'r draffordd gael ei wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall,**(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Chwefror 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 a Thraffordd yr M4 (Cyffordd a Chyfnewidfa Earlswood, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20.00 o'r gloch ar 27 Chwefror 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr

arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" *("the lengths of the motorway")* yw'r darnau o Draffordd yr M4 wrth Gyffordd 42, Earlswood ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau o gefnffordd yr A48 wrth Gyffordd Earlswood ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a'r draffordd a bennir yn Atodlenni'r Gorchymyn hwn.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, droi i'r dde ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1iii i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond yn ystod yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 17 Chwefror 2012

***G MORGAN***
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

# ATODLENNI

## ATODLEN 1

### CEFNFFORDD YR A48 – GWAHARDD POB CERBYD

i. Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Llansawel hyd at bwynt wrth ei chyffordd â thrwyn ffisegol ffordd ymuno'r M4 tua'r gorllewin.

ii. Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â ffordd ymadael yr M4 tua'r dwyrain hyd at bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Llansawel.

iii. Y troad i'r dde ar gyfer cerbydau tua'r dwyrain (oddi ar yr M4, allanfa Cyffordd 42) i gerbytffordd yr A483 tua'r gorllewin (heblaw i gyrraedd Uned Ddiwydiannol Marina Monkstone a heblaw cerbydau'r gwasanaethau brys).

## ATODLEN 2

### TRAFFORDD YR M4 – GWAHARDD POB CERBYD

i. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 43, Llandarcy.

ii. Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 42, Earlswood.